# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
# NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

## Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR DRAFNIDIAETH
## CROSS PARTY GROUP ON TRANSPORT

*Cadeirydd:* RUSSELL GEORGE AC/AM *: Chair*
*Ysgrifennydd:* JOHN POCKETT *: Secretary*

Cynhaliodd y Grŵp Trawsbleidiol ddau gyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar 6 Chwefror 2019, croesawodd y Grŵp Trawsbleidiol Gloria Esposito, Pennaeth Prosiectau yn y Bartneriaeth Cerbydau Carbon Isel yn Llundain a roddodd gyflwyniad am sut y mae cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a cherbydau nwyddau trwm yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau carbon, a sut y gallent wneud mwy.

Ar 26 Mehefin 2019, edrychodd y Grŵp Trawsbleidiol ar sut i annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a chafwyd cyflwyniadau gan Louise Coward o Transport Focus, Luke Davies o Traveline Cymru ac Alex Rollason o UCM Cymru.

Roedd mwy na 30 yn bresennol ym mhob cyfarfod, ac ymunodd Aelodau Cynulliad, eu staff cymorth, darparwyr trafnidiaeth a defnyddwyr ynghyd â rhai rhanddeiliaid allweddol yn y fforwm agored a'r drafodaeth ddilynol. Roedd y cyflwyniadau o'r cyfarfodydd ar gael i'r rheini a oedd yn bresennol a chafwyd lluniaeth yn y ddau gyfarfod diolch i CPT Cymru.

Bwriadwyd cynnal cyfarfod arall ar effeithiau tagfeydd ar drafnidiaeth gyhoeddus a chludiant cludo nwyddau ar gyfer mis Tachwedd, ond, yn anffodus, gohiriwyd hyn oherwydd nad oedd siaradwr allweddol ar gael. Rhagwelir y bydd hyn nawr yn cael ei gynnal yn 2020.

Nid oes unrhyw faterion ariannol i'w hadrodd gan nad yw'r Grŵp Trawsbleidiol wedi derbyn unrhyw gyfraniadau, nawdd na chefnogaeth ariannol arall, ac eithrio'r lluniaeth a ddarparwyd yn y ddau gyfarfod, sydd wedi'i nodi uchod.

**RUSSELL GEORGE AC/AM**
Cadeirydd: Chair

**JOHN POCKETT**
Ysgrifennydd: Secretary

Tachwedd : November 2019